

4. Yr Angylion

- Llefarydd: Cyn dechrau ein hoedfa heno, gadewch i ni fynd ar daith ddychmygol. Rydan ni'n mynd i rywle yn y bydysawd gan edrych oddi yno ar ein byd. Yn ein dychymyg, gwelwn ddau angel, un yn hŷn a'r llall yn iau. Mae'r angel hŷn yn dangos mawredd a gogoniant y cread i'r angel iau. Gadewch i ni wrando arnyn nhw'n sgwrsio am y Blaned a Gafodd Ymweliad.
- Angel 1 Hŷn: Dyna ti wedi gweld rhyfeddodau'r sêr a'r planedau, a'u gogoniant a'u harddwch!
- Angel 2 Iau: Do. Maen nhw'n wych iawn. Ond O! Mae miloedd ar filoedd ohonyn nhw, ac rwy'n dechrau blino. Ga i fynd adre nawr?
- Angel 1: Wel, na, dwi am ddangos un rhyfeddod arall i ti.
- Angel 2: [*Yn flinedig*] Rhyfeddod arall? Dyw e ddim yn bosib!
- Angel 1: Weli di'r haul acw a nifer o blanedau bach yn troi o'i amgylch? Weli di'r blaned fach acw?
- [*Glôb a golau gwan ar bwys yr organ*]
- Angel 2: Gwelaf, ond mae'n edrych fel rhyw hen bêl frwnt o'i chymharu â'r hyn rydw i wedi'i weld. Beth sy mor rhyfeddol am honna?
- Angel 1: [*Yn sobor iawn*] Dyma'r blaned gafodd YMWELIAD.
- Angel 2: Ymweliad? Ymweliad gan ...
- [*Yn dechrau dangos diddordeb*]
- Angel 1: Ie, falle dy fod ti'n meddwl bod y bêl fach acw'n ddibwys, ac ychydig yn frwnt, ond mae Tywysog y Gogoniant wedi ymweld â hi.
- Angel 2: Felly'n wir! O! felly'n wir! – [*Mewn syndod*] alla i ddim credu ei fod ef wedi plygu yn isel i fod yn un o'r creaduriaid bach yna!
- Angel 1: Wel, fe wnaeth! A fydde fe ddim yn hoffi dy glywed yn eu galw nhw'n greaduriaid bach yn y llais yna chwaith! Achos, er ei bod hi'n anodd i ni gredu'r peth, mae'n eu caru nhw. Aeth i lawr i ymweld â nhw er mwyn eu codi a'u gwneud nhw'n debyg iddo ef.
- Llefarydd: Edrychai'r angel iau yn hurt – ni allai gredu'r peth! Er mwyn mynd yn ôl mewn amser, gofynnodd y llall iddo gau ei lygaid, a thra oedd ei lygaid ar gau, stopiodd y blaned a throdd yn ei hôl am ychydig, yna aeth ymlaen eto yn araf fel arfer.
- Angel 1: Nawr, edrych! Weli di'r fflachiadau bach o olau yna?

- Angel 2: Wel, be ydw i'n ei weld nawr?
- Angel 1: Rwyt ti'n gweld y byd bach yna fel yr oedd filoedd o flynyddoedd yn ôl. Mae pob fflach o olau weli di yn dangos rhywfaint o wybodaeth a doethineb y Tad yn torri i mewn i feddyliau a chalonnau'r bobl sy'n byw yno. Yn anffodus, does dim llawer ohonyn nhw'n gallu clywed ei lais na deall ei eiriau er ei fod yn siarad â nhw drwy'r amser.
- Llefarydd: Aeth y byd yn ei flaen gan droi o gwmpas yr haul, yna'n sydyn yn rhan ucha'r blaned ymddangosodd golau bychan a oedd mor dreiddgar a chilir nes i'r ddau angel guddio eu llygaid.
- Angel 2: Rwy'n credu mod i'n gwybod beth oedd hwnna. Dyna'r ymweliad yntê?
- Angel 1: Ie, dyna'r ymweliad. Aeth y Goleuni ei hun i lawr yna a byw gyda nhw. Ond, mewn munud, fe fyddi di'n gallu gweld, hyd yn oed â dy lygaid ar gau, y golau yn diffodd.
- Llefarydd: Mewn tywyllwch dudew trodd y byd o gwmpas dair gwaith ac yna disgleiriodd golau llachar bendigedig! Gorchuddiodd yr angyllion eu llygaid.
- Angel 1: Do, fe laddon nhw'r Tywysog ond concrodd farwolaeth sef y peth maen nhw yno'n ei ofni fwyaf. Atgyfododd, a gwelodd llawer o bobl hynny a dod yn ddisgyblion iddo.
- Angel 2: Diolch i Dduw am hynny!
- Angel 1: Amen! Agor dy lygaid! Mae'r golau llachar wedi mynd. Mae'r Tywysog wedi dychwelyd i'w gartre yn y nefoedd. Ond gwylia'r blaned nawr.
-
- Llefarydd: Wrth iddyn nhw edrych gwelso'n nhw fod y golau llachar wedi troi'n llewyrch byw hyfryd. Ac wrth i'r byd droi, gwasgarai nifer o oleuadau bychain ohono. Gwanhaodd rhai a diffodd ... ond parhau i oleuo'n gyson wnaeth y rhan fwyaf, ac wrth i'r ddau angel wylio roedd llewyrch y goleuadau'n llifo dros nifer o ardaloedd.
- Angel 1: Rwyt ti'n gweld beth sy'n digwydd. Y llewyrch yna yw goleuni'r disgyblion ffyddlon, yn wŷr a gwragedd, sy'n parhau i'w ddilyn. Gyda help y Tywysog, maen nhw'n gwasgaru'r llewyrch ac erbyn hyn mae golau'n dechrau disgleirio ar hyd a lled y blaned gyfan.
- Angel 2: O! Dyna hyfryd. Mae hyn yn gyffrous! ... Ond sut mae pethe'n mynd i orffen? Fydd y goleuadau bach i gyd yn ymuno efo'i gilydd? Fydd y cyfan yn olau fel mae hi yn y nefoedd?
- Angel 1: Dydan ni ddim yn gwybod. Dim ond Duw ein Tad sy'n gwybod. Weithiau mae'n boen i edrych ar y blaned, ond dro arall, mae'n llawenydd pur. Dydi'r diwedd heb ddod eto. Ond rwy'n siŵr y gelli di ddeall nawr pam mae'r bêl fach acw mor bwysig. Mae ef wedi ymweld â hi ac mae'n gweithio allan ei gynllun arni.

Angel 2: Ydw, rwy'n gweld, er nad ydw i'n deall y cyfan. Ond wna i fyth anghofio'r blaned.

Angel 1: Na wnei. Yng ngoleuni'r byd tragwyddol mae'n bwysig dros ben oherwydd y ffaith syml ei bod wedi cael ymweliad.

DIWEDD